

# Polisi Toiledu ac Ymataliad

## Ysgol Gymraeg Sant Curig

---

### 1. Datganiad Polisi

Mae Ysgol Gymraeg Sant Curig yn cydnabod bod plant yn dechrau'r ysgol ar wahanol gamau datblygiadol, a bod anghenion toiledu'n amrywio yn ôl oedran, aeddfedrwydd, iechyd ac amgylchiadau unigol. Rydym wedi ymrwymo i gefnogi disgyblion mewn modd urddasol, sensitif a pharchus, gan annog datblygiad annibyniaeth a sgiliau hunan-ofal sy'n briodol i gam ddatblygiad pob plentyn.

Yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010, ni fydd unrhyw blentyn yn cael ei wrthod mynediad nac yn cael ei eithrio o unrhyw faes dysgu ar sail anghenion toiledu neu ymataliad. Mae ein dull yn sicrhau cynhwysiant, diogelwch, diogelu a llesiant disgyblion a staff fel ei gilydd.

---

### 2. Nodau'r Polisi

Nod y polisi hwn yw:

- Hyrwyddo annibyniaeth plant mewn toiledu a hylendid personol
  - Sicrhau darpariaeth briodol ar gyfer disgyblion ag anghenion meddygol, datblygiadol neu ddysgu ychwanegol
  - Egluro disgwyliadau'r ysgol o ran toiledu ar gyfer disgyblion heb anghenion ychwanegol
  - Diogelu urddas, preifatrwydd a llesiant emosiynol disgyblion
  - Darparu canllawiau clir i staff a rhieni ynghylch rolau a chyfrifoldebau
- 

### 3. Diffiniad o Hyfforddiant Toiled

Ystyrir bod plentyn wedi'i hyfforddi i ddefnyddio'r toiled pan fydd yn gallu:

- Adnabod yr angen i ddefnyddio'r toiled
- Rheoli dillad yn annibynnol
- Defnyddio'r toiled yn briodol
- Sychu ei hun yn effeithiol
- Fflysio'r toiled
- Golchi a sychu dwylo'n annibynnol

---

#### 4. Partneriaeth â Rhieni

Rydym yn cydnabod mai cyfrifoldeb rhieni a gofalwyr yw hyfforddiant toiledu yn bennaf, a dylai hyn ddechrau gartref.

- Anogir rhieni i ddechrau hyfforddiant toiledu (pan fo'n briodol yn ddatblygiadol) cyn i'r plentyn ddechrau'r ysgol, a gallant geisio cyngor gan Ymwelwyr Iechyd neu weithwyr meddygol proffesiynol.
- Disgwylir bod plant wedi dechrau hyfforddiant toiledu cyn dechrau'r ysgol.
- Ni ddisgwylir i blant ddechrau'r Dosbarth Meithrin yn gwisgo nappïau na "pull-ups", oni bai bod rheswm meddygol neu ddatblygiadol penodol.
- Rhaid i rieni hysbysu'r ysgol os nad yw plentyn wedi'i hyfforddi i ddefnyddio'r toiled cyn derbyn neu os oes pryderon parhaus.
- Gellir rhannu'r polisi hwn gyda rhieni yn ystod trefniadau cynefino.

---

#### 5. Cefnogi Toiledu yn y Cyfnod Sylfaen

Yn unol â chanllawiau'r Cyfnod Sylfaen, mae staff yn cefnogi datblygiad personol, cymdeithasol ac emosiynol plant, gan gynnwys sgiliau hunan-ofal.

Gall y gefnogaeth gynnwys:

- Atgofion rheolaidd a chyfleoedd i ddefnyddio'r toiled
- Aelod cyson o staff yn cefnogi plentyn unigol pan fo'n briodol
- Ymweliadau grŵp â'r toiled i feithrin hyder
- Annog plant i sychu, fflysio a golchi dwylo'n annibynnol, gyda goruchwyliaeth
- Sicrhad cadarnhaol a chanmoliaeth

Bydd staff bob amser yn annog annibyniaeth ac ni fyddant yn gorfodi nac yn rhuthro plant.

---

#### 6. Damweiniau Toiledu a Threfniadau Newid

##### Egwyddorion Cyffredinol

- Mae damweiniau toiledu yn gyffredin a byddant yn cael eu trin yn dawel, yn garedig a heb feirniadaeth.
- Ni fydd unrhyw blentyn byth yn derbyn canlyniad am ddamwain.

- Bydd preifatrwydd ac urddas bob amser yn cael eu parchu.
  - Bydd menig a ffedog dafladwy yn cael eu defnyddio.
  - Bydd dillad gwlyb neu fudr yn cael eu rhoi mewn bag a'u dychwelyd i'r cartref.
  - Caiff pob cefnogaeth neu newid toiledu ei chyfathrebu i rieni ar ddiwedd y dydd.
  - Bydd staff yn hysbysu aelod arall o staff pryd bynnag y caiff plentyn ei newid neu ei gefnogi gyda thoidledu.
- 

### Y Cyfnod Sylfaen

- Bydd staff yn cefnogi plant sydd â damweiniau achlysurol.
  - Anogir plant i newid eu hunain gymaint â phosibl.
  - Gall staff gynorthwyo gyda newid dillad.
  - Ni fydd gofal personol agos (e.e. sychu) yn rhan o ddarpariaeth ddyddiol arferol oni bai bod angen meddygol neu angen dysgu ychwanegol wedi'i gefnogi gan gynllun gofal.
  - Os na all plentyn ei lanhau ei hun a bod hyn yn digwydd yn rheolaidd, cysylltir â'r rhieni.
- 

### Cyfnod Allweddol 2

- Ni fydd staff yn newid disgyblion sy'n gwlychu neu'n baeddu eu hunain yn rheolaidd.
- Darperir lle preifat (e.e. toiled anabl) i'r plentyn newid yn annibynnol.
- Darperir cadachau gwlyb, dillad sbâr (lle bo ar gael) a bag.
- Cysylltir â rhieni/gofalwyr dros y ffôn ar ôl unrhyw ddigwyddiad gwlychu neu frifo.

Disgwylir i ddisgyblion hŷn sydd â damwain achlysurol ac nad oes angen golchi arnynt, reoli newid dillad yn annibynnol.

---

### 7. Anghenion Meddygol, ADY a Chynhwysiant

Gall fod gan rai plant anghenion meddygol, datblygiadol neu ddysgu ychwanegol sy'n effeithio ar ymataliad.

- Os yw anawsterau toiledu'n awgrymu problem feddygol bosibl, trafodir hyn yn sensitif gyda rhieni.
- Gellir ceisio cyngor gan y Nyrs Ysgol, Ymwelydd Iechyd neu weithwyr meddygol proffesiynol.

- Bydd gan ddisgyblion ag anghenion wedi'u diagnosis **Gynllun Gofal Iechyd** a/neu **Gynllun Toiledu**.
  - Rhoddir unrhyw hyfforddiant angenrheidiol i staff yn unol â chyngor proffesiynol.
  - Ni fydd anghenion toiledu byth yn atal cyfranogiad mewn gweithgareddau dysgu na theithiau ysgol.
  - Bydd asesiad risg yn cael ei gwblhau ar gyfer disgyblion sydd angen cefnogaeth barhaus.
- 

## 8. Salwch a Hylendid

- Os bydd plentyn yn cael damwain o ganlyniad i salwch, cysylltir â rhieni/gofalwyr yn brydlon.
  - Rhaid i blant sydd wedi dioddef chwydu neu ddolur rhydd aros gartref am **48 awr** ar ôl yr achos olaf.
  - Mae'r ysgol yn dilyn trefn lanhau a hylendid llym i gynnal amgylcheddau toiledu diogel.
- 

## 9. Mynediad i Doiledau a Goruchwyliaeth

- Gall disgyblion gael mynediad at y toiledau drwy gydol y diwrnod ysgol.
  - Disgwylir i ddisgyblion CA2 ofyn caniatâd cyn gadael gwersi i fynd i'r toiled.
  - Mewn rhai sefyllfaoedd (e.e. dysgu yn yr awyr agored), gellir gofyn i blant ymweld â'r toiled mewn paruau.
  - Ystyrir anghenion unigol bob amser.
- 

## 10. Cyfleusterau

Bydd yr ysgol yn sicrhau bod:

- Dŵr poeth ac oer, sebon, cyfleusterau sychu dwylo a phapur tŷ bach ar gael
  - Cyfleusterau o faint priodol ac yn hygyrch
  - Glanhau, goruchwyllo ac archwilio rheolaidd drwy gydol y diwrnod ysgol
  - Unedau gwaredu hylendid ar gael yn nhoiledau merched (8 oed +)
- 

## 11. Cyfrifoldebau Staff a Diogelu

- Dim ond aelodau staff yr ysgol fydd yn darparu cefnogaeth toiledu neu newid.
- Ni chaniateir i fyfyrwyr, gwirfoddolwyr nac ymwelwyr newid plant.
- Ni ddisgwylir i staff ddarparu gofal personol agos arferol oni bai bod cynllun gofal ffurfiol ar waith.
- Mae hyn yn diogelu lles staff, iechyd a diogelwch, ac yn bodloni gofynion diogelu.

## 12. Adolygu

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan yr uwch dîm arweinyddiaeth a'r llywodraethwyr, ac yn cael ei ddiweddarau yn unol â chanllawiau statudol ac anghenion yr ysgol.

| Enw'r Pennaeth | Enw'r Llywodraethwr | Dyddiad   |
|----------------|---------------------|-----------|
| Rhodri Jones   | Tiffany Barker      | Medi 2025 |
|                |                     |           |
|                |                     |           |
|                |                     |           |

